Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas y Bryn**

**Cartref Nyrsio Plas y Bryn**
**31 Tan y Bryn Road**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Plas y Bryn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Elmtree Healthcare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 03 Chwefror 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Nid yw Plas y Bryn wedi gallu recriwtio staff Cymraeg. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Plas y Bryn yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl ac maent yn rhoi cymorth mewn ffordd ofalgar. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o gynllunio eu gofal. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl am anghenion y bobl. Caiff teithiau dydd a gweithgareddau yn y cartref eu trefnu'n ddyddiol, sy'n ysgogi'r bobl ac yn eu helpu i deimlo'n rhan o'u cymuned.

Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y cartref gofal ac maent yn gweithio'n dda fel tîm. Caiff pob aelod o'r staff sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac maent yn cwblhau hyfforddiant perthnasol. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu ac maent yn hyderus o ran eu cyfrifoldebau i chwythu'r chwiban.

Gwelsom waith cynnal a chadw parhaus yn cael ei wneud y tu allan i'r cartref a threfniadau i addurnwyr ddod i ailaddurno'r cartref yn y flwyddyn newydd. Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac mae'r bobl yn dewis sut i addurno eu hystafelloedd eu hunain.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae camau wedi'u cymryd i wella meysydd o'r gwasanaeth yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn trafod ansawdd y gwasanaeth â'r staff a'r preswylwyr.

## Llesiant

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni eu llesiant. Mae'r bobl yn ymwybodol o ba gyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran eu gofal a'u cymorth ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Caiff cynlluniau'r bobl eu llunio yn unol â'u hanghenion unigol, a chaiff eu hoff bethau a'u cas bethau eu cofnodi yn eu cynllun gofal. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli ag eitemau o'u cartref a chânt gyfle i ddewis cynllun lliwiau eu hystafelloedd eu hunain. Yn ogystal â hynny, ymgynghorir â nhw ynglŷn â newidiadau i'r ardaloedd cymunedol.

Mae'r bobl yn cael eu gofal mewn awyrgylch hamddenol a gwelsom fod y staff yn ymateb i'r bobl mewn modd amserol. Dywedodd un person fod y staff yn garedig wrth ei gefnogi â gweithgareddau beunyddiol. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau, a threfnir galwadau rheolaidd dros Skype â pherthnasau na allant ymweld â'r cartref, pa bryd bynnag y byddant yn dymuno gwneud hynny.

Rhoddir dewisiadau i'r bobl o ddydd i ddydd, sy'n rhoi rheolaeth iddynt o ran sut y maent am dreulio eu diwrnod. Caiff y bobl gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a gynigir bob dydd; cânt eu trin fel unigolion a'u cefnogi i gymryd rhan mewn hobïau a diddordebau gwahanol. Cyflogir gweithiwr gweithgareddau llawn amser, a dywedodd un person fod yr unigolyn hwn yn wych.  Gwelsom y bobl yn mwynhau gweithgaredd croesair grŵp, yn cael sgwrs un i un ac yn chwarae gemau bwrdd, a gwelsom y staff yn mynd â'r bobl allan i'r gymuned. Mae un preswylydd wedi cael cymorth i fynychu dosbarthiadau colli pwysau, gan ei fod yn dymuno bod yn iachach, ac mae person arall wedi cael cymorth i ymweld â'i bartner. Gall y bobl fynd allan i siopa gyda'r staff neu gallant roi rhestr siopa i'r staff, os yw'n well ganddynt wneud hynny. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed a gwrandewir arnynt.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed. Mae'r asesiadau risg yn briodol ac yn gyfredol, a chânt eu hadolygu fel sy'n ofynnol. Mae'r asesiadau risg yn hyrwyddo newid cadarnhaol mewn ymddygiad, yn galluogi cyfathrebu effeithiol ac yn nodi ‘sbardunau’ hysbys ar gyfer yr unigolion. Gwelsom fod yr asesiadau risg yn gytbwys, er mwyn sicrhau y caiff y bobl a'r staff eu hamddiffyn. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, rhoddir gwybod am achosion diogelu yn briodol, ac mae polisi diogelu cadarn ar waith. Mae'r darparwr yn rhoi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau fel sy'n ofynnol. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl na allant adael y cartref yn ddiogel.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y staff gynllun cywir a chyfredol ar waith o ran sut y dylid rhoi gofal i'r bobl er mwyn diwallu eu hanghenion. Caiff y bobl eu cefnogi a'u cynnwys wrth gynllunio eu gofal. Adolygir y cynlluniau personol yn rheolaidd ac maent yn cynnwys gwybodaeth gyfredol am anghenion y bobl. Mae'r asesiadau risg yn cofnodi risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl a'r ffordd y dylai'r staff reoli'r risgiau hyn yn effeithiol. Mae trefniadau ar waith i fonitro pwysau'r bobl ac archwilio eu croen. Caiff atgyfeiriadau amserol at ddarparwyr gofal iechyd eu cwblhau. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi cael help i gael cymorth eirioli. Mae'r bobl yn cael prydau bwyd maethlon ac iach, yn gallu cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd priodol, ac yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae hyn yn eu helpu i reoli eu cyflwr iechyd eu hunain ac i gadw mor iach â phosibl. Caiff meddyginiaeth ei rhoi a'i storio'n ddiogel. Mae'r staff yn ystyried dymuniadau, uchelgeisiau a chanlyniadau personol yr unigolion.

Mae'r bobl yn cael gofal rheolaidd gan dîm cyson o staff, sy'n golygu bod modd cynnig parhad gofal i'r bobl. Gwnaethom edrych ar y rotas misol a gwelsom fod niferoedd digonol o staff wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth. Mae gan y staff gydberthnasau da â'r bobl; gwelsom y bobl yn chwerthin ac yn cael hwyl gydag aelodau o'r staff. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a gwelsom fod y staff yn gallu rhagfynegi ymddygiadau'r bobl er mwyn iddynt allu rhagweld eu hanghenion.

Mae'r staff yn ystyried dewisiadau'r bobl ac yn parchu eu dymuniadau o ran eu harferion dyddiol. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn canmol y staff am wrando ar eu dymuniadau, *"staff listen to what I like and what I would like to do"*. Gwelsom fod yn well gan rai pobl aros yn eu hystafelloedd eu hunain a bod rhai eraill yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a theithiau dydd. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli, a gallant ddewis eitemau ychwanegol ar gyfer eu hystafell wely a sut y caiff ei haddurno. Gwelsom gath anwes yn y cartref. Dywedodd un person wrthym, *"I think the world of my animals",* a dywedodd fod y ffaith ei fod wedi gallu dod a'i anifeiliaid anwes ei hun i fyw gydag ef o fudd iddo. Gwelsom fod y bobl yn cael cymorth gan y staff i ofalu am eu hanifeiliaid anwes.

Gwelsom brydau bwyd iach yn cael eu paratoi gan y cogydd. Cynigir dewis o opsiynau bwyd i'r bobl. Dywedodd y bobl fod y bwyd yn flasus ac roeddent yn llawn canmoliaeth i'r cogydd, gan ddweud eu bod yn cael amrywiaeth o ddewis. Gwelsom fod hoff fwydydd a chas fwydydd y bobl wedi'u nodi'n glir yn eu cynlluniau personol. Cadarnhaodd y cogydd fod staff y gegin yn ymwybodol o ddewisiadau'r bobl a'u bod yn fodlon paratoi prydau gwahanol ar gais.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo ymdeimlad y bobl o berthyn. Mae awyrgylch cartrefol a chroesawgar yn y cartref gofal. Gwelsom fod carpedi newydd wedi cael eu gosod yn yr ardaloedd cymunedol ar y llawr gwaelod a bod cynlluniau i wneud rhagor o waith cynnal a chadw yn y flwyddyn newydd. Mae'r rheolwr wedi dewis papur wal newydd ar gyfer y cartref mewn ymateb i adborth gan y preswylwyr. Gall y bobl sy'n byw yn y cartref deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu bod yn cael gofal mewn amgylchedd cyfforddus a glân sydd wedi'i bersonoli. Mae trefniadau diogelwch ar waith i sicrhau bod yr unigolion yn ddiogel, heb amharu ar eu hawliau, eu preifatrwydd na'u hurddas. Caiff y cofnodion gofal a chofnodion personél y cyflogeion eu cadw'n ddiogel ar y safle.

Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu anghenion y bobl, gan gynnwys teclynnau codi, slingiau, cadeiriau breichiau arbenigol a matresi lleddfu pwysedd. Caiff y teclynnau codi eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Cynhelir gwiriadau wythnosol o'r larymau tân a gwiriadau misol o'r diffoddwyr tân, a chaiff y goleuadau argyfwng eu profi'n wythnosol. Mae'r holl dystysgrifau trydanol yn gyfredol a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch misol, profion dŵr misol a phrosesau fflysio allfeydd y cawodydd misol eu cwblhau er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Mae digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Gwelsom drefniadau effeithiol i gynnal safonau hylendid a rheoli heintiau da, er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi rhoi sgôr hylendid bwyd o 5 i'r gegin, sef y sgôr uchaf posibl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn dangos ymrwymiad i ysgogi gwelliannau. Mae rheolwr newydd wedi'i benodi, sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Dywedodd un aelod o'r staff, *"I'm confident in approaching management, the new manager has settled in well."*

Mae gan y darparwr broses recriwtio ar waith. Cynhelir gwiriadau addasrwydd ar y staff cyn eu cyflogi; caiff pob gwiriad ei gwblhau cyn i'r staff ddechrau yn eu rôl. Caiff pob aelod o'r staff ei oruchwylio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff yn dilyn arferion gorau, eu bod yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt, ac y caiff eu llesiant ei hybu. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant rheoli a hyfforddiant gorfodol. Mae gan y rheolwyr system ar waith i sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi mynychu cyrsiau perthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl yn y cartref yn cael gofal o ansawdd da.

Gwnaethom edrych ar ddatganiad o ddiben y gwasanaeth, sy'n rhoi cofnod cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae systemau sefydledig ac effeithlon ar waith i fonitro ac adolygu asesiadau a chynlluniau gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref i gwblhau archwiliadau, siarad â'r bobl yn y cartref a monitro cynnydd y gwasanaeth. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r ffaith nad oedd yr Unigolyn Cyfrifol yn trafod ansawdd y gwasanaeth â'r preswylwyr a'r staff. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi'u cymryd i ymdrin â'r mater hwn. Cwblhaodd yr Unigolyn Cyfrifol 'Adolygiad o Ansawdd y Gofal' yn 2022 hefyd, ac mae'r adroddiad yn nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda yn y cartref a'r meysydd i'w gwella er mwyn datblygu'r gwasanaeth ymhellach. Gwelsom fod yr archwiliadau a'r holl bolisïau yn y cartref yn gyfredol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 73 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi trafod ansawdd y gwasanaeth â'r preswylwyr na'r staff ac nid yw wedi cynnwys eu barn yn yr adroddiad chwarterol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/01/2023